



Swydd:	Ystadegydd Uwch
Adrodd i:	Pennaeth Dros Dro Ystadegau ac Ymchwil
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog:	Gradd 5 (£44,215 - £53,225 codiad cyflog y gweill)
Contract:	Dros dro. Efallai y byddwn yn ystyried llenwi'r swydd hon yn wreiddiol trwy secondiad penodol o 18 mis.

Swyddogaethau'r swydd hon

Gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi ein gwaith, byddwch yn:

- Chwarae rhan flaenllaw wrth lunio gallu ystadegol ac ymchwil o fewn ein sefydliad;
- Arwain rhaglenni / prosiectau technegol (yn fewnol ac o fewn sefydliadau rhanddeiliaid), gan gynnwys casglu, dadansoddi a defnyddio data perthnasol i ddeall anghenion a gyrru gwelliant gwasanaeth;
- Dylunio a chyflawni dadansoddiadau data yn ôl manylebau penodol, trin y data fel y bo angen, ac ysgrifennu adroddiadau ar y dadansoddiadau hynny;
- Cefnogi'r defnydd a datblygiad parhaus o sawl system a dangosfwrdd lledaenu data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Sicrhau bod ein safonau ystadegol corfforaethol yn adlewyrchu arfer gorau;
- Sicrhau ansawdd ein hallbynnau ystadegol yn unol â safonau corfforaethol;
- Sicrhau bod allbynnau ystadegol yn cynrychioli'r data yn effeithiol;
- Darparu cyngor perthnasol ar ystadegau ac ymchwil i gydweithwyr yn fewnol ac ar draws y teulu llywodraeth leol ehangach;
- Sicrhau bod gwaith prosiect yn cael ei gyflawni'n brydlon, o fewn y gyllideb, ac yn unol â'r manyleb;
- Datblygu a chynnal rhwydwaith effeithiol o gysylltiadau ar draws llywodraeth leol a chanolog ac asiantaethau allweddol eraill;
- Rheoli unrhyw staff a allai adrodd i'r swydd; a
- Cyflawni unrhyw waith perthnasol arall yn ôl yr angen.

Cymwyseddau technegol hanfodol

- Addysg hyd at lefel gradd mewn ystadegau ffurfiol a / neu ymchwil, neu brofiad perthnasol;
- Gallu cymhwyso egwyddorion ystadegol ac ymchwil priodol i broblemau;
- Gallu defnyddio gwybodaeth dechnegol yn gywir ac yn gadarn, gan roi cyngor i eraill ar y defnydd mwyaf priodol o ddata a thechnegau ystadegol;
- Gallu dadansoddi a chyflwyno data a chanfyddiadau i gynulleidfaoedd technegol ac annhechnegol, gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd priodol lle bo angen;
- Gallu cynghori pobl nad ydynt yn ystadegwyr gan ddefnyddio iaith nad yw'n dechnegol; a
- Cymwys iawn wrth ddefnyddio pecynnau meddalwedd MS Office.

Cymwyseddau technegol dymunol

- Gallu creu modelau data ac allbynnau blaen mewn PowerBI;
- Gwybodaeth ymarferol o iaith codio berthnasol, megis R neu Python;

- Gallu dylunio a / neu redeg arolygon;
- Gallu rheoli staff a chyllidebau, yn ddelfrydol mewn amgylchedd ystadegol neu ymchwil; a
- Mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fantais sylweddol.

Rhagor o fanylion am gymwyseddau ymddygiadol

Cyfeiriwch at ein "Fframwaith Cymwyseddau" am fanylion y cymwyseddau sydd eu hangen. Mae cymwyseddau Gradd 5 yn berthnasol i'r swydd hon.